

# Cynllun y Clwstwr 2025-2026

## Canolbarth Powys

### Grŵp Gweithredol Cynllunio ar draws y Clwstwr Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

#### Crynodeb Gweithredol y Clwstwr

Gan barhau i adeiladu ar sylfeini blynyddoedd blaenorol, mae gweithio mewn partneriaeth wedi parhau i gael ei gryfhau trwy gydol 2024/25, gyda mwy o ymgysylltu a chydweithio parhaus rhwng contractwyr annibynnol, PAVO, Gwasanaethau Cymunedol a chynrychiolaeth ehangach y bwrdd iechyd yn dod â mwy o fanteision i boblogaeth Clwstwr y Canolbarth.

Fel Clwstwr, mae angen gweithio'n fwy cydweithredol o hyd, i effeithio ar a dylanwadu ar newid go iawn ar gyfer datblygu a chynllunio gwasanaethau. Fel Clwstwr, rydym hefyd yn cydnabod, er mwyn cwrdd â'r gofynion parhaus ehangach ar wasanaethau, y bydd dull Powys gyfan sy'n cydweithio â chlwstwr y De a'r Gogledd yn helpu hwyluso a chefnogi datblygiad datrysiadau gwasanaeth clwstwr cynaliadwy hirdymor. Bydd hwn yn ffocws allweddol ar gyfer y clwstwr ar gyfer 2025/26.

Mae cynaliadwyedd yr holl wasanaethau Gofal Sylfaenol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Clwstwr, gyda'r Trydydd Sector yn parhau i fod yn bartner pwysig wrth ddarparu gwasanaethau ar draws y Canolbarth, gan gefnogi cleifion i gael mynediad at ddarparwyr gofal wedi'u cynllunio ac aciwt, tra hefyd yn eu helpu i fyw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r pwysigrwydd a'r gwerth y mae eu gwasanaethau'n eu darparu yn parhau i fod yn hanfodol i'n holl gymunedau a chleifion ledled y Canolbarth.

Ar ôl gweithredu a threialu Gwasanaeth Ymarferydd Cyswllt Cyntaf Cyhyrsgerbydol yn llwyddiannus, mae 2024/25 wedi gweld y gwasanaeth hwn yn cael ei fabwysiadu i ddod yn ddatrysiad hirdymor i wasanaethau ar gyfer y Clwstwr Canol. Mae cofleidio a chefnogi arloesedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i aelodau'r Clwstwr.

Gan adeiladu ar lwyddiant y cynllun peilot hwn, mae 2024/25 wedi gweld llwyfan technoleg ddigidol newydd o fewn Meddygfeydd yn cael ei gyflwyno i gefnogi darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd i gleifion, gan ddarparu mynediad a chyfeirio mwy amserol at wasanaethau, gan ddod â ffyrdd newydd o weithio ac amser effeithlonrwydd i swyddogaethau'r 'swyddfa gefn'.

Mae 2024/25 hefyd wedi gweld y Clwstwr yn cefnogi datblygiad rhaglen ymyrraeth gordewdra plentyndod wedi'i thargedu ar gyfer plant a phobl ifanc, gan ddarparu cyfres o sesiynau addysg maeth a bwyta'n iach, gan gynnwys sgiliau coginio a goresgyn rhwystrau obesogenig.

Fel yn 2024/25, mae heriau'r gweithlu ac i wasanaethau'n parhau ar draws yr holl broffesiynau gofal iechyd yng Nghlwrstwr y Canolbarth, gan archwilio modelau recriwtio newydd, datblygu cysylltiadau cryf â'r 'Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol', i hwyluso lleoliadau gwledig Fferyllydd Myfyrwyr a Chyn Cofrestru, gan gryfhau cysylltiadau â'r Prifysgolion lleol, i ddatblygu modiwlau a lleoliadau addysg Nyrsio

Blaenoriaethau a chamau gweithredu Amlinellol Allweddol y Clwstwr 2025/26:

#### **Gwella Mynediad at Wasanaethau Sylfaenol a Chymunedol**

- **Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd** - cefnogi cleifion eiddlil, gwasanaethau dietegol rheoli meddyginiaeth, ac ehangu clinigau Retinopathi Diabetig.
- **Digidol a Mynediad Cleifion** - datblygu mynediad amgen i wasanaethau gan ddefnyddio apiau a meddalwedd digidol i gefnogi darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd a rheoli cyflyrau hirdymor a pharhau i hyrwyddo Ap GIG Cymru
- **Grwpiau bregus a difreintiedig** – nodi grwpiau'n rhagweithiol ar draws Clwstwr, cwmpasu'r gwasanaethau a ddarperir, a llwybrau mynediad.
- **Gwella darpariaeth a mynediad** at wasanaethau atal ac afiechydon a ddarperir yn y Gymuned – cynyddu addysg gwasanaethau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol trwy Wasanaeth Cysylltwyr Cymunedol PAVO, cynllun anhwylderau cyffredin fferyliaeth, optometreg a gwasanaethau deintyddol, i gefnogi triniaeth ac atal salwch drwy gefnogi cleifion i fabwysiadu gwell ymddygiad iach.
- **Gweithwyr Fferyllo Proffesiynol o fewn Meddygfeydd** – cefnogi blaenoriaethau y Model Gofal Sylfaenol i Gymru ac eiddilwch i reoli meddyginiaethau.

#### **Llwybrau Gofal, gwasanaethau hanfodol, a pharhad busnes**

- **Creu cysylltiadau datblygu gwasanaethau cydweithredol gydag aelodau Clwstwr a Chydweithredol, Comisiynwyr a darparwyr Gofal Eilaidd** – i wella llwybrau gofal ar draws darparwyr a gwasanaethau clwstwr.
- **Cefnogi datblygiad a dyluniad gwasanaethau yn y sir** – Diagnosteg, Cardïoleg, Dermatoleg, gwasanaethau Trawsryweddol.
- **Adolygiad o'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n hanfodol i ddarparwyr Clwstwr wrth ddiwallu anghenion y boblogaeth sy'n cefnogi 'Model Gofal Cynaliadwy' i gleifion Powys, gan gynnwys Gwasanaethau Wardiau Rhithwir, Anadlol, Cardïoleg, Canser, Gordewdra, Atal Diabetes, Cwmpadau, Eiddilwch, Trawsryweddol, Ffoaduriaid, Menywod a Lloches i Blant.**
- **Gwasanaethau cymorth Cleifion ar Restr Aros** - cefnogi cleifion sy'n aros am lawdriniaeth.
- **Cefnogi gweithrediad fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol Cymru Gyfan** drwy adeiladu ar ddarpariaeth bresennol Powys a datrysiadau digidol i gefnogi iechyd a lles cleifion. (Cysylltwyr Cymunedol PAVO yw'r gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol a ariennir sy'n cwmpasu Powys gyfan).

#### **Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng**

- **Gwasanaethau eiddilwch a wardiau rhithwir** – cefnogi mapio ac adolygu darpariaeth bresennol y gwasanaeth a gwaith rhaglen, gwella gofal ar draws y clwstwr i'r rhai sydd ag anghenion mwyaf agored i niwed, dysgu o wasanaethau a pheilotiaid presennol, nodi atebion

# Cynllun y Clwstwr 2025-2026

Myfyrwyr, i ddarparu sesiynau datblygu sgiliau â ffocws i bob gweithiwr proffesiynol, mae buddsoddi mewn addysg a datblygu sgiliau ein gweithlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Clwstwr.

Mae llawer o flaenoriaethau a heriau o hyd ar draws y Clwstwr, a sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, bydd y Clwstwr yn parhau i gydweithio drwy gydol 2025 a thu hwnt, gyda'r holl bartneriaid a chleifion i wella iechyd a lles y poblogaethau lleol.

## **Sue Lewis - Rheolwr Datblygu'r Clwstwr (mewn absenoldeb Arweinydd y Clwstwr)**

– gan gynnwys Wardiau Rhithwir, Deintyddol, Optometreg, Fferyllfa Gymunedol, gwasanaethau cymunedol, a datblygu Asesiadau Cynhwysfawr i'r Henoed ledled Powys, ac offer cynllunio Rhag-gynllunio Gofal.

- **Profion Pwynt Gofal** - cefnogi datblygiad modelau profion pwynt gofal ar draws y Clwstwr.
- **Cynllunio a modelu ar gyfer y Gaeaf** i ateb y **galw cynyddol ar y system** ar draws pob gwasanaeth Sylfaenol a Chymunedol – gan gynnwys rôl Unedau Mân Anafiadau a gwasanaethau mân anhwylder. Gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau a llwybrau gofal ar draws aelodau a gwasanaethau Clwstwr, trwy ymgyrchoedd addysg a chyfathrebu.

## **Iechyd Meddwl a Lles**

- **Gwasanaeth GIG 111 pwyso 2** - parhau i gefnogi datblygu'r gwasanaeth hwn, cefnogi'r addysg ac ymwybyddiaeth ymhlith cleifion a chymunedau.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o **ddarpariaeth Iechyd Meddwl y trydydd sector** ymhlith cleifion drwy **Wasanaeth Gwybodaeth Iechyd Meddwl Powys**. (Prosiect a gomisiynwyd gan BIAP)

## **Y Gweithlu a Lles**

- Cefnogi datblygu modelau recriwtio amgen a llwybrau gyrfa ar draws y clwstwr ar gyfer pob proffesiwn.
- **Gwasanaethau lles ar gyfer gweithwyr clwstwr a chydweithredol a chontractwyr annibynnol**, gan godi ymwybyddiaeth o ddarparu gwasanaethau a nodi llwybrau mynediad.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r **Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol** ar gyfer darparu addysg, hyfforddiant a datblygiad y gweithlu, galluogi gyrfaedd portffolio, hwyluso cysylltiadau cryfach â phrifysgolion, ac ehangu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau mwy gwledig a galluogi datblygu gyrfaedd portffolio a modelau recriwtio amgen.
- Cefnogi datblygiad, **sgiliau a gwybodaeth gweithwyr proffesiynol**, clinigol ac anghlinigol i gefnogi'r gwaith o gyflawni **prosiectau blaenoriaeth y Clwstwr y cytunwyd arnynt**.

## **Cyflawniadau / llwyddiannau allweddol sy'n gysylltiedig â Chynllun y Clwstwr 2024/25:**

- Mae Gwasanaeth Ymarferydd Cyswllt Cyntaf Cyhyrysgerbydol wedi cael ei fabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd fel datrysiad gwasanaeth hirdymor ar gyfer Clwstwr y Canolbarth.
- Gweithredu a mabwysiadu technoleg ddigidol yn llwyddiannus, Accurx, i gefnogi cynaliadwyedd a darpariaeth gwasanaethau o ddydd i ddydd.
- Cefnogi dull Powys Gyfan o ddatblygu a threialu rhaglen gordewdra plant a phobl ifanc yn ystod Plentyndod, gan ddarparu cyfres o sesiynau addysg maeth a bwyta iechyd, gan gynnwys sgiliau coginio a chwrs sgiliau maeth.

## **Myfyrdodau / heriau allweddol sy'n gysylltiedig â Chynllun y Clwstwr 2024/25:**

- Mae 2024/25 wedi parhau i weld ymgysylltu â'r bwrdd iechyd ehangach, gwasanaethau, timau rhaglen a'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol.
- Mae'r clwstwr wedi cydnabod yr angen i gwrdd â gofynion ehangach y gwasanaeth, i effeithio a dylanwadu ar newid go iawn ar gyfer datblygu a chynllunio gwasanaethau. Bydd dull Powys Gyfan, yn gweithio ar y cyd â chlystyrau'r Gogledd a'r De i rannu blaenoriaethau, syniadau a dysgiadau, yn fuddiol.
- Mae dangos canlyniadau a gwerthoedd llwyddiannus ar gyfer rhai prosiectau peilot wedi bod yn heriol yn 2024/25 - mae hyn wedi gweld rhai cynlluniau peilot yn dod i ben, gan nad oedd modd sicrhau cyllid cynaliadwy hirdymor o bob rhan o'r system. Yn 2025/26 bydd y Clwstwr yn gweithio gydag arweinwyr Prosiect i sicrhau bod adroddiadau'n adlewyrchu blaenoriaethau ehangach y system a bod gwerth/canlyniadau'n cael eu diffinio'n gliriach.
- Mae 2024/25 wedi parhau i drawsnewid clystyrau, gyda rôl a llais yn parhau i gael eu sefydlu o fewn y tirweddau cynllunio sefydliadol ehangach.

# Cynllun y Clwstwr 2025-2026

## Alinio sy'n dod i'r amlwg â Chynllun PCPG / Cynllun Ardal RPB 2023/2028

Mae gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Powys weledigaeth gyffredin o greu gwasanaethau cynaliadwy sy'n diwallu anghenion y boblogaeth, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd pobl i 'Dechrau'n Dda', 'Byw'n Dda' a 'Heneiddio'n Dda' drwy ganolbwyntio ar les, cymorth a chefnogaeth gynnar, y pedair her fawr a gofal cydgysylltiedig.

Mae yna aliniad datblygu gwasanaethau sy'n dod i'r amlwg o hyd gyda blaenoriaethau Grŵp Gweithredol RPB a'r Cynllun Ardal, drwy'r meysydd allweddol canlynol:

**Cymorth cynnar a modelau gofal o atal** – gwella mynediad at ofal sylfaenol, drwy wasanaethau Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf, darpariaeth gwasanaeth Eiddilwch, Atal Diabetes, Gwasanaethau Dermatoleg Meddygon Teulu.

**Gofal Cydgysylltiedig Integredig** – darparu gofal yn nes at adref, datblygu gwasanaethau eiddilwch ar draws timau'r Clwstwr, dull cymunedol o gydlynw a darparu gofal i gleifion sy'n ddifrifol fregus.

**Dyfodol y Gweithlu** - cydweithio â'r Academiâu Iechyd a Gofal ar gyfer darparu addysg, hyfforddiant a datblygiad y gweithlu, gan alluogi modelau recriwtio amgen a gyrfaoedd portffolio, ac ehangu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau mwy gwledig.

**Parhau i Drawsnewid mewn partneriaeth** – cydweithio ar draws ffiniau clwstwr a chydweithredol, i gefnogi arloesedd a gwelliant i fodolau gofal, trwy ddull amlbroffesiynol a sefydliadol o ddarparu gwasanaethau eiddilwch.

# Cynllun y Clwstwr 2025-2026

Teitl y Prosiect a Ariennir	Prosiect Newydd neu Gyfredol	Disgrifiad Byr o'r Prosiect	Canlyniadau / buddion a ddisgwylir erbyn diwedd Mawrth 2026	Aliniad Strategol: Blaenoriaethau Gweinidogol	Dyddiad Gorffen y Prosiect
<b>Digidol a Mynediad Cleifion</b>	Newydd (2024-25)	Datblygu mynediad amgen i wasanaethau gan ddefnyddio apiau a meddalwedd digidol i gefnogi darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd a rheoli cyflyrau hirdymor. Trwy ddefnyddio AccurX.	Gwella mynediad amgen i wasanaethau i gleifion. Gwella effeithlonrwydd gyda swyddogaethau swyddfa gefn.	Gofal Cydgysylltiedig / Trawsnewid mewn Partneriaeth	Medi 2025
<b>Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Eiddilwch</b>	Presennol (2023/24)	Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ambroffesiynol sy'n cefnogi eiddilwch – o fewn cymuned, Rheoli Meddyginiaethau, Cartref yn Gyntaf, sgrinio diabetig.	Cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i gleifion bregus, cwblhau CGA, integreiddio CRT, atal cwmpiaidau a chymorth a chefnogaeth gynnar.	Iechyd y Boblogaeth	Mawrth 2026
<b>Gweithwyr Proffesiynol Fferylliaeth - Eiddilwch</b>	Presennol (2024/25)	Canolbwynt ar reoli meddyginiaeth ar gyfer y cleifion mwyaf bregus ac eiddil.	Gwella llwybrau gofal i gleifion, gostyngiad mewn derbyniadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau.	Cymru Iachach	Mawrth 2027
<b>Optometrydd Cyn Cofrestru</b>	Presennol (Cynllun 2022-23)	Datblygu model recriwtio Optometreg newydd ar gyfer Powys.	Cryfhau a denu gweithlu newydd i Bowys.	Cefnogi'r gweithlu iechyd a gofal	Rhagfyr 2026
<b>Peilot Gorbwysedd Optometreg</b>	Presennol (Cynllun 2022-23)	I sefydlu defnyddioldeb gwasanaeth Gorbwysedd.	Lleihau atgyfeiriadau diangen at ymarfer cyffredinol a lleihau amser aros cyn ymchwiliadau systemig.	Cymru Iachach	Gwanwyn 2025
<b>Rheoli Pwysau Plant a Phobl Ifanc L2</b>	Newydd (2024/25)	Cefnogi datblygiad a darpariaeth gwasanaethau rheoli pwysau plant a phobl ifanc haen 2/3.	Gwella iechyd gydol oes trwy wella arferion bwyta. Mwy o hyder i gynyddu lefelau/arferion gweithgarwch drwy addysg deuluol wyneb yn wyneb.	Gofal Cydgysylltiedig / Trawsnewid mewn Partneriaeth	Gwanwyn 2025
<b>Gwelliannau Adrodd ar Ward Rithwir</b>	Newydd (2024/25)	Datblygu dull digidol Powys Gyfan o gofnodi ac adrodd gweithgaredd ward rithwir.	Gwell casglu data a chysondeb adrodd ar draws Powys, gan gefnogi datblygiad gwasanaeth safonol.	Gofal Cydgysylltiedig / Trawsnewid mewn Partneriaeth	Ebrill 2025